

Cyfweld Ysgogiadol a Gwaith Cymdeithasol Llawlyfr Codio Medrau

Gan gynnwys elfennau codio craidd
Motivational Interviewing Treatment Integrity
(MITI)

Medi 2019

Gair ar Gyfeirnod

Mae'r cynllun codio hwn yn ymgorffori llawer o elfennau MITI. Felly, mewn darnau academaidd, gofynnwn ichi gyfeirio at y cynllun hwnnw fel a ganlyn:

Social Work and Interviewing Motivationally (SWIM) coding handbook (Forrester et al, 2019¹; Moyers et al, 2014²)

¹ Forrester, D., Whittaker, C. a Wilkins, D. (2019) *Social Work and Interviewing Motivationally (SWIM) coding handbook*, Canolfan CASCADE Prifysgol Caerdydd – llawlyfr heb ei gyhoeddi

² Morwr, TB, Manuel, JK, & Ernst, D. (2014). *Motivational Interviewing Treatment Integrity Coding Manual 4.1*. Llawlyfr heb ei gyhoeddi. Dadlwythwyd o: https://casaa.unm.edu/download/miti4_2.pdf

Cyflwyniad a throsolwg

Diben hyn o lawlyfr yw cyfleu prif elfennau cyfweld ysgogiadol lle mae'n berthnasol i waith cymdeithasol er lles plant a theuluoedd, yn arbennig y trafodaethau cymhleth am ddiogelu plant. Mae wedi'i seilio ar ymchwil aeth rhagddi dros 15 mlynedd yn y deyrnas hon.

Wrth wraidd y codio, mae pedwar dimensiwn medrau yn ôl cynllun *Motivational Interviewing Treatment Integrity* (fersiwn 3.1.1 MITI). Sef:

- Ennyn
- Cydweithio
- Annibyniaeth
- Deall

Gyda chaniatâd caredig Terri Moyers a William R. Miller rydyn ni wedi ymgorffori'r rhain yn y cynllun codio hwn.

Mae dau newid pwysig o'i chymharu â MITI, fodd bynnag. Yn gyntaf, trwy brofi a chywiro helaeth, ymchwil ac ymgynghori ag arbenigwyr, penderfynon ni fod tri dimensiwn ychwanegol yn bwysig iawn o ran medrau trin a thrafod plant a theuluoedd:

- Pennu diben
- Cadw sylw ar y plentyn
- Bod yn eglur ynghylch pryderon

Fel y gwelwch chi yn y tudalennau canlynol, llunion ni ffyrdd o ddefnyddio'r rheiny yn ôl egwyddorion cyfweld ysgogiadol a chodau medrau MITI.

Yn ail, pan edrychon ni ar y modd mae medrau³ yn ymwneud â'i gilydd, gallen ni weld y dylen ni eu didoli fel a ganlyn yn ôl synnwyr cyd-destunol yn ogystal â synnwyr ystadegol:

Gofal ac ymgysylltu	Awdurdod da	Cymorth newid ymddygiad
Cydweithio	Pennu diben	Ennyn
Annibyniaeth	Bod yn eglur ynghylch peryglon ac anghenion	
Deall	Cadw sylw ar y plentyn	

Mae hyn yn wahanol i'r modd mae MITI yn cyfuno medrau - rhoi cydweithio, annibyniaeth ac ennyn ynghyd yn lefel gyffredinol ynghylch medrau cyfweld ysgogiadol. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r canlynol:

³ Forrester, D., Killian, M., Westlake, D., & Sheehan, L. (2019). Patterns of practice: An exploratory factor analysis of child and family social worker skills. *Child & Family Social Work*.

Yr Athro Harry Ferguson am fynegi'r syniad o 'awdurdod da' yn ei waith manwl am wahanol ddiwylliannau a'u harferion, a oedd yn addas iawn i'n diben, yn ôl pob golwg.

Wrth baratoi'r cynllun hwn, rydyn ni wedi bod yn ddigon ffodus i allu 'sefyll ar ysgwyddau cewri'. Yn benodol, mae gwaith Miller, Moyers a Rollnick wedi cynnig ffordd hynod ddefnyddiol o ddeall a chodio medrau gweithwyr.

Rydyn ni'n cynnig y cynllun hwn yn y gobaith y bydd modd i ymchwilwyr ac ymarferwyr fel ei gilydd ei ddefnyddio a'i addasu fel y gwelan nhw'n dda. Mae'n bwysig nodi dau beth wrth wneud hynny, fodd bynnag.

Yn gyntaf, yn ôl ein profiad ni, bydd angen tipyn o amser – sawl awr o godio a thrafod gwaith – i feithrin y gallu i godio'n ddibynadwy⁴. Os ydych chi'n defnyddio hwn ar gyfer naill ai ymchwil neu waith yn eich sefydliad, bydd yn ymestynnol, a byddai'n dda gyda ni fod o gymorth pe baech chi'n cysylltu â ni.

Yn ail, mae'r cynllun codio hwn yn fan cychwyn meddwl am arferion da gwaith cymdeithasol ymhlith plant a theuluoedd. Nid disgrifiad cyflawn o arferion da mo hwn o bell ffordd – yn wir, dyw'r fath beth ddim yn bosibl. Yn benodol, er ein bod yn gobeithio bod digon o fedrau gofal, ymgysylltu ac awdurdod da wedi'u disgrifio ynddo, rydyn ni o'r farn bod angen inni fireinio rhai elfennau ynghylch helpu i newid ymddygiad. Ar ben hynny, mae sawl math arall o arferion da y byddai lle i'w nodi mewn graddfa godio, megis bod yn ddiffuant a synnwyr digrifwch.

O fewn y ffiniau hynny, bu modd codio'n gywir trwy ddefnyddio'r cynllun hwn. Rydyn ni wedi nodi cysylltiadau pwysig rhwng medrau a deilliannau buddiol i blant a theuluoedd⁵. Yn ein hastudiaethau, rydyn ni wedi gweld bod modd effeithio ar waith er gwell trwy newid hyfforddiant, goruchwyliaeth neu gyfundrefnau, hefyd. Mae angen llawer mwy o ymchwil i bwysu a mesur pa mor ddilys a dibynadwy yw'r dimensiynau hynny, fodd bynnag. Gobeithio y bydd modd hwyluso hynny trwy roi'r llawlyfr codio hwn ar gael.

Felly, cynigir y cynllun codio hwn yn ôl ysbryd yr un gwreiddiol mae wedi'i seilio arno (MITI) – i ysgogi a helpu pobl ynghylch ystyried a datblygu arferion da. Gobeithiwn ni y bydd yn ddefnyddiol ichi i'r diben hwnnw.

Yr Athro Donald Forrester

ForresterD@cardiff.ac.uk

⁴ Whittaker, C., Forrester, D., Killian, M., & Jones, R. (2016). Can we reliably measure social work communication skills. *International Journal of Child and Family Welfare*, 17(1/2), 47-63.

⁵ Forrester, D., Westlake, D., Killian, M., Antonopolou, V., McCann, M., Thurnham, A., ... & Hutchison, D. (2019). What is the relationship between worker skills and outcomes for families in child and family social work?. *The British Journal of Social Work*.

Ennyn (newid ymddygiad)

Isel					Uchel
1	2	3	4	5	
<p>Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn esbonio'r rhesymau dros newid neu'n addysgu pobl am newid yn lle edrych ar wybodaeth, ymdrechion neu gymhelliant y rhieni / cynhalwyr.</p>	<p>Mae gwaith cymdeithasol yn dibynnu ar addysgu a hysbysu ar draul dysgu am gymhelliant a syniadau personol rhieni / cynhalwyr.</p>	<p>Fydd y gweithiwr cymdeithasol ddim yn dangos unrhyw ddiddordeb nac ymwybyddiaeth o ran rhesymau'r rhieni / cynhalwyr dros newid a sut y dylai newid o'r fath ddigwydd. Gall hysbysu neu addysgu rhieni / cynhalwyr heb ystyried a yw'n addas i'r sefyllfa.</p>	<p>Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn derbyn rhesymau a syniadau'r rhieni / cynhalwyr am sut y dylai newid ddigwydd. Fydd y gweithiwr ddim yn ceisio addysgu na chyfarwyddo rhieni / cynhalwyr os ydyn nhw'n gwrthsefyll hynny.</p>	<p>Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gofyn i'r rhieni / cynhalwyr nodi pam a sut y dylen nhw newid</p>	
amgylchiadau.					

Diben y raddfa hon yw mesur faint mae'r gweithiwr cymdeithasol wedi pwysleisio bod angen i'r rhieni/cynhalwyr fod yn fodlon ac yn gallu newid a faint y bydd yn ceisio ymhelaethu ar hynny a meithrin cydsyniad yn y drafodaeth wedyn. Mae'n hymchwil hyd yma wedi dangos bod tua thraean o'r achosion o dan sylw yn ymwneud â gwir angen newid ymddygiad o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, er enghraifft. Mewn achosion lle nad yw'n amlwg bod angen newid ymddygiad (y ddau draean eraill), bydden ni'n rhoi 'amherthnasol' yn hytrach nag un o rifau'r côd hwn.

Pen is y raddfa

Dim ond diddordeb arwynebol sydd gan weithwyr cymdeithasol isel eu sgôr ar y raddfa hon yn rhesymau rhieni/cynhalwyr dros newid neu beidio ac, o ganlyniad, bydd yn colli sawl cyfle i'w harchwilio. Gall dybio bod rhieni/cynhalwyr yn fodlon newid (neu'n anfodlon) heb ystyried hynny'n fanwl ac, ar y llaw arall, gall ddiystyru unrhyw syniadau mae'r rhieni/cynhalwyr wedi'u cynnig. Gall gweithwyr cymdeithasol isel eu sgôr o ran *ennyn* ddibynnu ar hel gwybodaeth neu ffeithiau drwy'r amser i hwyluso newid gan gyfleu yn aml ddiffyg hyder ynghylch faint mae'r rhieni/cynhalwyr yn ei wybod am y broblem o dan sylw. Bydd gweithwyr cymdeithasol sydd ar ben isel y raddfa hon yn methu ag ymateb i syniadau am newid neu'n amlygu agwedd ffwrdd-â-hi. Maen nhw'n debygol o *ddweud wrth* y rhieni/cynhalwyr pam y dylen nhw newid yn hytrach nac *ennyn* diddordeb yn y peth.

Pen uwch y raddfa

Mae gweithwyr cymdeithasol uchel eu sgôr ar y raddfa hon yn chwilfrydig am syniadau personol

ac unigryw rhieni/cynhalwyr ynghylch sut y gallai newid fod o fantais neu fel arall. Yn ogystal

â chydio yn y syniadau

mae rhieni/cynhalwyr wedi'u cynnig, byddan nhw'n ceisio trafod syniadau o'r fath lle nad ydyn nhw wedi'u cynnig. Er y gallen nhw hysbysu neu addysgu pobl, fydd gweithwyr cymdeithasol medrus ym maes ennyn ddim yn dibynnu ar hynny er mwyn helpu rhieni/cynhalwyr i newid. Yn lle hynny, byddan nhw'n blaenoriaethu holi'r rhieni/cynhalwyr am eu rhesymau personol dros newid a'r ffordd o'u hwyluso heb golli golwg ar y drafodaeth honno ymhlith manylion eraill y sesiwn. Mae gweithwyr cymdeithasol uchel eu sgôr ar raddfa *ennyn* yn deall ei bod yn bwysig clywed syniadau rhieni/cynhalwyr dros newid ac yn creu cyfleoedd i syniadau o'r fath gael eu cynnig a'u trafod.

Angorau geiriol

1. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn esbonio'r rhesymau dros newid neu'n addysgu pobl am newid yn lle edrych ar wybodaeth, ymdrechion neu gymhelliant y rhieni / cynhalwyr.

- Diystyru neu gamddeall yr hyn mae rhieni neu gynhalwyr wedi'i ddweud am yr ymddygiad o dan sylw.
- Addysgu rhieni/cynhalwyr yn ddi-ffael hyd yn oed lle mae'r wybodaeth wedi'i rhoi eisoes.
- Defnyddio rhestr holi nad yw'n ystyried ymateb unigryw'r rhieni/cynhalwyr.
- Diystyru cyfraniadau rhieni/cynhalwyr.
- Diffyg chwilfrydedd ynghylch amgylchiadau'r rhieni/cynhalwyr.
- Ceisio darbwyllo neu orfodi'r rhieni/cynhalwyr i newid.

2. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dibynnu ar addysgu a hysbysu yn lle dysgu am gymhelliant a syniadau personol rhieni/cynhalwyr.

- Methu â chynnwys cyfraniadau rhieni/cynhalwyr yn y trafodaethau am newid.
- Ymdrechion amwys neu anghyflawn i ymateb i syniadau rhieni/cynhalwyr am newid.
- Diddordeb gwan neu arwynebol yn sylwadau ac amgylchiadau rhieni/cynhalwyr.

3. Fydd y gweithiwr cymdeithasol ddim yn dangos unrhyw ddiddordeb nac ymwybyddiaeth o ran rhesymau'r rhieni/cynhalwyr dros newid a sut y dylai newid o'r fath ddigwydd. Gall hysbysu neu addysgu rhieni/cynhalwyr heb ystyried a yw'n addas i'r sefyllfa.

- Colli cyfleoedd i ymchwilio i gymhelliant rhieni/cynhalwyr dros newid (er enghraifft, trwy drafod unrhyw lwyddiannau blaenorol sydd wedi'u crybwyll).
- Llugoer ynglŷn â sylwadau ac amgylchiadau rhieni/cynhalwyr.
- Ymatebion ysbeidiol i syniadau rhieni/cynhalwyr dros newid.

4. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn derbyn rhesymau a syniadau'r rhieni/cynhalwyr am sut y dylai newid ddigwydd. Fydd y gweithiwr ddim yn ceisio addysgu na chyfarwyddo rhieni/cynhalwyr sy'n gwrthsefyll hynny.

- Croesawu syniadau rhieni/cynhalwyr am newid a chymhelliant er mwyn llywio'r drafodaeth.
- Cydnabod y rhesymau mae rhieni/cynhalwyr wedi'u cynnig dros newid heb godi cwestiynau nac ymhelaethu. Ymateb yn gyson i drafodaeth am newid pan ddigwydd, gan ofyn cwestiynau neu fynegi diddordeb trwy dulliau eraill.

5. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gofyn i'r rhieni/cynhalwyr nodi pam a sut y dylen nhw newid.

- Chwilfrydig am syniadau a phrofiadau rhieni/cynhalwyr, yn enwedig ynghylch yr ymddygiad o dan sylw.
- Helpu rhieni/cynhalwyr i'w darbwylllo eu hunain i newid.
- Defnyddio ffordd drefnus o ennyn ac atgyfnerthu diddordeb ynghylch trafod newid.
- Heb gollu cyfleoedd i ystyried yn fanwl resymau mae rhieni/cynhalwyr wedi'u cynnig dros newid.
- Croesawu syniadau rhieni/cynhalwyr am newid a chymhelliant er mwyn llywio'r cyfweiliad.
- Ennyn diddordeb mewn newid yn strategol, gan ymateb yn gyson i syniadau sydd wedi'u cynnig.

Cydweithio (gofal ac ymgysylltu)

Isel				Uchel
1	2	3	4	5
Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rôl arbenigwr dros y rhan fwyaf o'r drafodaeth. Does dim cydweithio . Bydd ymateb y	gweithiwr cymdeithasol i gyfleoedd i gydweithio yn llugoer.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cynnwys nodau, syniadau ac egwyddorion rhieni / cynhalwyr mewn modd llugoer neu anghyson. Efallai na fydd yn gweld nac yn anwybyddu cyfleoedd i ddyfnhau cyfraniad rhieni / cynhalwyr at y drafodaeth.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn meithrin cydweithio a rhannu grym fel y bydd syniadau'r rhieni / cynhalwyr yn effeithio ar y drafodaeth mewn ffyrdd na fydden nhw'n digwydd fel arall.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn meithrin cydweithio a rhannu grym fel y bydd syniadau'r rhieni/cynhalw yr yn effeithio'n fawr ar natur y drafodaeth.

Mae'r raddfa hon yn mesur sut y bydd gweithiwr cymdeithasol yn ymddwyn mewn cyfweiliad rhwng dau bartner cyfartal lle mae'r ddau'n gwybod pethau a allai fod yn ddefnyddiol yn y broblem neu'r sefyllfa o dan sylw.

Pen is y raddfa

Fydd gweithiwr cymdeithasol isel ei sgôr o ran *cydweithio* ddim yn anelu at gyd-ddealltwriaeth yn ystod y sesiwn. I hwyluso cynnydd, bydd yn dibynnu ar gyfathrebu unffordd wedi'i seilio ar ei awdurdod a'i arbenigedd yn weithiwr cymdeithasol. Gall fod yn ddiystyriol, yn rhy oddefol neu'n ildiol i'r graddau na all gyfrannu'n dda at y drafodaeth. Bydd gweithiwr cymdeithasol o'r fath yn dibynnu ar faint mae'n ei wybod i ymateb i sefyllfa neu broblem rhieni/cynhalwyr heb werthfawrogi faint mae rhieni/cynhalwyr yn ei wybod. Yn aml, bydd yn penderfynu bod angen newid a sut y dylai ddigwydd cyn trafod hynny gyda'r rhieni/cynhalwyr.

Pen uwch y raddfa

Bydd gweithiwr cymdeithasol uchel ei sgôr o ran *cydweithio* yn ceisio cyflawni nodau'r cyfweiliad ar y cyd â'r rhieni/cynhalwyr. Fydd gweithiwr o'r fath ddim yn dibynnu ar ei oruchafiaeth, ei awdurdod na'i arbenigedd i hwyluso cynnydd. Bydd yn chwilfrydig am syniadau rhieni/cynhalwyr ac yn fodlon cael ei lywio ganddyn nhw. Gall gadw ei arbenigedd wrth gefn gan ei ddefnyddio'n strategol pan fydd y rhieni/cynhalwyr yn barod i'w dderbyn.

Angorau geiriol

1. **Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ysgwyddo rôl arbenigwr dros y rhan fwyaf o'r trafodaethau gyda'r rhieni/cynhalwyr. Does dim cydweithio.**
 - Cymryd rôl arbenigwr yn fwriadol.
 - Gwadu neu fychanu syniadau'r rhieni/cynhalwyr.

- Dominyddu'r sgwrs.
 - Dadlau pan fydd rhieni/cynhalwyr yn cynnig dull amgen.
 - Goddefol, wedi'i ddatgysylltu neu'n ddiystyriol.
- 2. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn methu â hybu cydweithio neu'n ymateb yn arwynebol i gyfleoedd i gydweithio.**
- Anhawster ynghylch ildio rôl arbenigwr.
 - Holi rhieni/cynhalwyr yn arwynebol.
 - Cynnig gwybodaeth neu arbenigedd ar draul cyfleoedd i ddatrys problemau ar y cyd, yn aml.
 - Ymateb cyn lleied ag y bo modd i sylwadau rhieni/cynhalwyr.
 - Methu â chanolbwyntio neu golli amynedd gyda rhieni/cynhalwyr.
- 3. Fydd y gweithiwr cymdeithasol ddim yn dangos unrhyw ddiddordeb nac ymwybyddiaeth o ran rhesymau'r rhieni/cynhalwyr dros newid a sut y dylai newid o'r fath ddigwydd. Gall hysbysu neu addysgu rhieni/cynhalwyr heb ystyried a yw'n addas i'r sefyllfa.**
- Colli cyfleoedd i ymchwilio i gymhelliant rhieni/cynhalwyr dros newid (er enghraifft, trwy drafod unrhyw lwyddiannau blaenorol sydd wedi'u crybwyll).
 - Llugoer ynglŷn â sylwadau ac amgylchiadau rhieni/cynhalwyr.
 - Ymatebion ysbeidiol i syniadau rhieni/cynhalwyr dros newid.
- 4. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn meithrin cydweithio a rhannu grym fel y gall syniadau'r rhieni/cynhalwyr effeithio ar y sesiwn mewn ffyrdd na fydden nhw'n digwydd fel arall.**
- Trefnu'r sesiwn rywfaint i ofalu y bydd rhieni/cynhalwyr yn gallu cyfrannu.
 - Gofyn am farn rhieni/cynhalwyr.
 - Gwahodd rhieni/cynhalwyr i ddatrys problemau ar y cyd.
 - Heb fynnu penderfyniad nes bod y rhieni/cynhalwyr yn barod.
- 5. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn meithrin ac yn hybu rhannu grym fel y bydd syniadau'r rhieni/cynhalwyr yn dylanwadu'n fawr ar gyfeiriad a chanlyniad y drafodaeth.**
- Trefnu sesiynau i alluogi rhieni/cynhalwyr i gyfrannu.
 - Gwrando ar syniadau rhieni/cynhalwyr a chodi cwestiynau wedyn.
 - Cynnwys awgrymiadau rhieni/cynhalwyr yn ei syniadau ei hun.
 - Gwahodd rhieni/cynhalwyr i gymryd rhan.
 - Rhoi'r rhieni/cynhalwyr yn rôl yr arbenigwr.
 - Cynnig cyngorion ac arbenigedd yn ôl natur cyfraniad y rhieni/cynhalwyr.

Annibyniaeth (gofal ac ymgysylltu)

Isel	Uchel			
1	2	3	4	5
Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn tanseilio neu'n gwadu tyb rhieni / cynhalwyr ynghylch faint maen nhw'n cael dewis trywydd neu reoli sefyllfa.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn llugoer neu'n arwynebol ynghylch tyb rhieni / cynhalwyr bod hawl gyda nhw i ddewis trywydd.	Fydd dim barn bendant gan y gweithiwr cymdeithasol am annibyniaeth rhieni/cynhalw yr a'u hawl i ddewis.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn derbyn ac yn cefnogi annibyniaeth rhieni / cynhalwyr a'u hawl i ddewis.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cryfhau'n fawr ymdeimlad ac ystyr yr annibyniaeth mae rhieni / cynhalwyr wedi'i mynegi gan ehangu eu profiad o ddewis a rheoli yn sylweddol.

Diben y raddfa hon yw mesur faint mae gweithiwr cymdeithasol yn cefnogi ac yn meithrin tyb rhieni/cynhalwyr bod hawl i ddewis gyda nhw, o'i chymharu â cheisio rheoli eu hymddygiad neu eu dewisiadau. Mae'n ymwneud ag osgoi mathau penodol o ymddygiad a gweithredu yn ôl strategaethau gwella annibyniaeth.

Pen is y raddfa

Agwedd gweithwyr cymdeithasol isel eu sgôr o ran *annibyniaeth* yw nad oes gallu gan y rhieni/cynhalwyr i newid eu hymddygiad er gwell heb gymorth arbenigwyr. Gallan nhw dybio y bydd rhieni/cynhalwyr yn newid eu hymddygiad achos bod y gweithiwr o'r farn mai hynny fyddai orau. Gall y gweithiwr ddweud yn blwmp ac yn blaen nad oes dewis arall i'r rhieni/cynhalwyr. At hynny, gall geisio cyfyngu ar y dewisiadau trwy ddefnyddio canlyniadau allanol. Efallai y bydd gweithwyr cymdeithasol yn mynnu nad oes ond un ffordd o newid er gwell, neu efallai y bydd amheuan gyda nhw ynghylch gallu rhieni/cynhalwyr i newid. Dyw hynny ddim yn cynnwys, fodd bynnag, sefyllfa lle y bydd gweithiwr cymdeithasol yn cydymdeimlo â rhieni/cynhalwyr na allan nhw weld yr un dewis buddiol a'r rhai sy'n ddiobaith neu'n ddig am eu hamgylchiadau.

Pen uwch y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol uchel eu sgôr o ran *annibyniaeth* yn gofalu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, bod dewis a rheoli yn rhan o'r drafodaeth. Maen nhw o'r farn bod modd i rieni/cynhalwyr newid eu bywydau er gwell. Bydd gweithwyr cymdeithasol sydd ar ben uchaf y raddfa hon yn helpu rhieni/cynhalwyr i nodi sut y gallan nhw newid eu hymddygiad a'u sefyllfa (gan dderbyn, wrth gwrs, na fydd ond hyn a hyn o ddewisiadau i lawer o rieni/cynhalwyr o achos rhesymau y tu hwnt i'w rheolaeth). Bydd y gweithiwr yn mynegi gobaith

am allu'r rhieni/cynhalwyr i newid, gan dderbyn bod parhau'r un fath yn un o'r dewisiadau sydd ar gael, hefyd.

Angorau geiriol

- 1. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn tanseilio neu'n gwadu tyb rhieni/cynhalwyr ynghylch**
eu hawl i ddewis neu reoli.
 - Dweud yn eglur nad oes dewis gan rieni/cynhalwyr.
 - Awgrymu nad oes dewis o achos canlyniadau allanol.
 - Amheun, neu ddirmyg hyd yn oed, wrth sôn am ddewisiadau.
 - Anhyblyg ynghylch nifer y dewisiadau.

- 2. Fydd y gweithiwr cymdeithasol ddim yn cefnogi tyb rhieni/cynhalwyr o ran dewis, a dim ond arwynebol fydd ei ymateb.**
 - Heb ymhelaethu ar y pwnc, osgoi ei drafod ar ôl i'r rhieni/cynhalwyr ei godi.
 - Cwtogi ar hawl rhieni/cynhalwyr i ddewis neu roi ond ychydig o sylw iddi.
 - Diystyru'r pwnc ar ôl ei gydnabod.
 - Dim gonestrwydd wrth drafod dewisiadau rhieni/cynhalwyr.
 - Diystyru dewisiadau rhieni/cynhalwyr ar ôl iddyn nhw eu codi.

- 3. Dim barn bendant gan y gweithiwr cymdeithasol ynglŷn â dewis.**
 - Heb wadu bod hawl i ddewis, ond heb wneud ymdrech i'w thrafod, chwaith.
 - Methu â chodi'r pwnc yn ystod y drafodaeth.

- 4. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn derbyn ac yn cefnogi annibyniaeth rhieni/cynhalwyr.**
 - Ystyried dewisiadau rhieni/cynhalwyr o ddifrif.
 - Cyd-fynd â rhieni/cynhalwyr sy'n dweud nad oes rhaid newid ac na all neb eu gorfodi i newid.

- 5. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cryfhau'n fawr ymdeimlad ac ystyr yr annibyniaeth mae rhieni/cynhalwyr wedi'i mynegi gan ehangu eu golwg yn sylweddol ynghylch dewis a rheoli.**
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gofyn am sylwadau'r rhieni/cynhalwyr gan gryfhau eu hymdeimlad o fod yn annibynnol.
 - Ystyried y dewisiadau mewn modd diffuant, heb geisio awdurdodi.
 - Cydnabod dewis rhieni/cynhalwyr i beidio â newid yn eglur.
 - Cynnig sawl cyfle i drafod dewisiadau os nad yw'r rhieni/cynhalwyr wedi ymateb i'r ymgais gyntaf.
 - Ystyried syniadau rhieni/cynhalwyr am newid o ddifrif.

Deall (gofal ac ymgysylltu)

Isel						Uchel
1	2	3	4	5		
Mae'r gweithiwr cymdeithasol heb amlygu diddordeb ym marn y rhieni / cynhalwyr am y byd. Rhoi fawr ddim sylw i safbwynt rhieni / cynhalwyr.	Bydd ymdrechion y gweithiwr cymdeithasol i ddeall safbwynt y rhieni / cynhalwyr yn dameidiog. Gallai'r gweithiwr cymdeithasol gamddeall neu gamddehongli geiriau'r rhieni/cynhalw yr.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ceisio deall safbwynt y rhieni / cynhalwyr, heb fod yn gwbl lwyddiannus. Mae'n ymddangos bod y	gweithiwr cymdeithasol yn deall barn y rhieni / cynhalwyr am y byd. Ymdrechu dro ar ôl tro i ddeall safbwynt y rhieni / cynhalwyr. Deall ond y pethau amlycaf. Mae'n ymddangos bod y amlwg.	gweithiwr cymdeithasol yn deall safbwynt y rhieni / cynhalwyr yn drylwyr, nid dim ond yr wybodaeth		

Diben y raddfa hon yw mesur faint y bydd gweithiwr cymdeithasol yn deall safbwynt a theimladau rhieni/cynhalwyr neu'n ceisio gwneud hynny: i ba raddau y bydd yn ceisio ei ddodi ei hun yn eu lle. Nid derbyn, eirioli, na bod yn gynnes neu'n onest mo hyn; dyw'r rheiny ddim yn rhan o'r rhinwedd hwn.

Er bod gwrando'n astud yn rhan bwysig o'r nodwedd hon, diben hyn o raddfa yw cofnodi pob un o ymdrechion gweithiwr cymdeithasol i ddeall safbwynt y rhieni/cynhalwyr a dangos ei fod yn ei ddeall.

Pen is y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol isel eu sgôr o ran *deall* naill ai'n amlygu diffyg diddordeb yn safbwynt a phrofiad rhieni/cynhalwyr

neu'n eu diystyru. Er y gallen nhw ofyn am fanylion i hel ffeithiau neu ddilyn rhyw drywydd, byddan nhw'n gwneud hynny i gryfhau'r ddadl o blaid eu safbwynt nhw yn hytrach na cheisio deall safbwynt y rhieni/cynhalwyr. Bydd ond ychydig o ymdrech i ddeall yn drylwyr ddigwyddiadau a theimladau cymhleth a bydd eu cwestiynau'n adlewyrchu diffyg amynedd neu onestrwydd. Efallai y byddan nhw'n beirniadu safbwynt y rhieni/cynhalwyr neu'n eu beio am ddeilliannau anfuddiol.

Pen uwch y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol sy'n gallu *deall* yn ystyried y sesiwn yn gyfle i ddysgu am y rhieni/cynhalwyr. Maen nhw'n chwilfrydig. Byddan nhw'n treulio amser yn ystyried barn a syniadau'r rhieni/cynhalwyr am yr hyn mae gwir angen ei newid. Daw'r gallu i ddeall sefyllfa pobl eraill i'r amlwg pan fydd gweithiwr yn dangos gwir ddiddordeb yn yr hyn mae'r rhieni/cynhalwyr yn ei ddweud. Gall fod yn amlwg pan fydd y gweithiwr yn dilyn neu'n dehongli hanes neu ddatganiad cymhleth gan y rhieni/cynhalwyr yn gywir ac yn eu holi'n dringar er eglurder.

Angorau geiriol

- 1. Mae'n ymddangos nad oes diddordeb gan y gweithiwr cymdeithasol ym marn y client am y byd. Fawr ddim sylw sydd wedi'i roi i safbwynt y rhieni/cynhalwyr.**
 - Hel gwybodaeth yw unig ddiben y cwestiynau (gyda bwriad cudd, yn aml).
 - Gofyn am ffeithiau heb unrhyw ymdrech i ddeall sefyllfa'r rhieni/cynhalwyr.

- 2. Bydd ymdrechion y gweithiwr cymdeithasol i ddeall safbwynt y rhieni/cynhalwyr yn dameidiog. Efallai y bydd y gweithiwr cymdeithasol yn camdeall neu'n camddechongli gwir ystyr geiriau'r rhieni/cynhalwyr.**
 - Bydd ymdrechion y gweithiwr cymdeithasol i ddeall y rhieni/cynhalwyr yn wan.
 - Bydd y gweithiwr yn cynnig sylwadau, ond mae wedi camddechongli geiriau'r rhieni/cynhalwyr.

- 3. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ceisio deall safbwynt y rhieni/cynhalwyr, heb fod yn gwbl lwyddiannus.**
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dangos peth gallu i ddeall sefyllfa'r rhieni/cynhalwyr.
 - Efallai y bydd gweithiwr cymdeithasol yn cynnig sylwadau, ond heb ddeall geiriau'r rhieni/cynhalwyr.
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ceisio deall geiriau'r rhieni/cynhalwyr drwy gydol y sesiwn, ond heb fod yn hollol lwyddiannus.

- 4. Mae'n ymddangos bod y gweithiwr cymdeithasol yn deall barn y rhieni/cynhalwyr am y byd. Dim ond y pethau amlycaf sydd wedi'u deall.**
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn ymdrechu dro ar ôl tro i ddeall safbwynt y rhieni/cynhalwyr.
 - Dim ond y pethau amlycaf sydd wedi'u deall.
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cyfleu diddordeb yn safbwynt neu sefyllfa'r rhieni/cynhalwyr
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi sylwadau cywir ar ôl deall geiriau'r rhieni/cynhalwyr.
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dangos ei fod yn deall safbwynt y rhieni/cynhalwyr.

- 5. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dangos ei fod yn deall safbwynt y rhieni/cynhalwyr yn drylwyr - yr hyn maen nhw wedi'i ddweud a'r hyn nad ydyn nhw wedi'i ddweud fel ei gilydd.**
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dangos ei fod yn deall y rhieni/cynhalwyr y *tu hwnt* i'r hyn maen nhw wedi'i ddweud.
 - Cyfleu llawer o ddiddordeb yn safbwynt neu sefyllfa'r rhieni/cynhalwyr.
 - Ceisio ei roi ei hun yn sefyllfa'r rhieni/cynhalwyr.
 - Annog rhieni/cynhalwyr i ymhelaethu yn aml, y tu hwnt i ddisgrifiad bras.
 - Rhoi llawer o sylwadau cywir a chymhleth.

Pennu diben (awdurdod da)

Pennu diben (awdurdod da)				
Isel	Uchel			
1	2	3	4	5
Does dim nod eglur i'r drafodaeth a dyw hi ddim yn amlwg beth mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ceisio ei gyflawni.	Mae arwyddion bod diben, ond mae yn y drafodaeth sawl rhan lle mae'r diben yn aneglur neu'n mynd yn ôl fformiwla.	Mae arwyddion bod y drafodaeth yn anelu at nod ar y cyfan. Y gweithiwr cymdeithasol sy'n ei llywio, fodd bynnag, heb fawr ddim negodi.	Mae diben y drafodaeth yn eglur drwyddi draw, er y bydd y gweithiwr cymdeithasol yn parhau'n hyblyg yn ymateb i'r rhieni / cynhalwyr.	Mae diben y drafodaeth yn eglur, ac mae pawb sy'n cymryd rhan ynddi wedi'i ddeall a chytuno arno. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn dangos ei fod wedi cynllunio, er y bydd yn parhau'n hyblyg yn ymateb i'r rhieni / cynhalwyr.

Diben y raddfa hon yw mesur faint y bydd gweithiwr cymdeithasol yn pennu nod ar gyfer trafodaeth ac yn cadw ato. Mae diben yn syniad cymhleth y bydd ei angen i weithio'n dda, er bod rhaid i bawb gytuno arno. Yn y rhan fwyaf o drafodaethau, y delfryd yw y dylai pawb drafod y diben a chytuno arno, ond gall fod yn briodol pennu agenda eglur (lle mae angen trafod pryderon pwysig, er enghraifft) neu ddilyn agenda'r rhieni/cynhalwyr (lle mae nhw'n bwriadu datgelu rhywbeth pwysig, er enghraifft).

Pen is y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol isel eu sgôr o ran *pennu diben* yn methu â rhoi strwythur neu eglurder i'r sesiwn, a gall y rheswm dros y drafodaeth barhau'n aneglur. Efallai y bydd y sgwrs fel un anffurfiol rhwng cyfatebion yn hytrach nag un broffesiynol. Mae trafodaethau heb *ddiben* yn debygol o fod yn ddiarnac ac, felly, fydd y sawl sy'n gwranddo/gwyllo ddim yn gallu nodi'r hyn mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ceisio ei gyflawni. Ar y llaw arall, gallai'r gweithiwr cymdeithasol wneud peth ymdrech i bennu diben ond methu â chanolbwyntio arno.

Pen uwch y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol uchel eu sgôr o ran *pennu diben* yn gwybod o'r dechrau beth maen nhw'n ceisio ei gyflawni ac yn dangos eu bod yn canolbwyntio arno. Byddan nhw'n cydnabod bod angen pennu agenda ar y cyd yn ôl anghenion y rhieni/cynhalwyr, hefyd. Bydd gweithwyr uchel eu sgôr o ran *pennu diben* yn ystyried y drafodaeth yn orchwyl proffesiynol (neu'n rhan ohono) gan anelu at nod penodol (un sy'n gyffredin fyddai orau). Gallan nhw ymateb yn hyblyg i gyfraniadau'r rhieni/cynhalwyr wrth gadw golwg ar y diben drwyddi draw.

Angorau geiriol

1. **Does dim nod eglur i'r drafodaeth a dyw hi ddim yn amlwg beth mae'r gweithiwr cymdeithasol yn ceisio ei gyflawni.**
 - Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn methu â rhoi strwythur ar gyfer y drafodaeth.

- Trafodaeth ddiamcan a all swnio fel sgwrs anffurfiol rhwng cyfatebion.
 - Dim diben amlwg yn y drafodaeth.
 - Cyflawni fawr ddim o ganlyniad i'r drafodaeth.
- 2. Mae arwyddion bod rhyw ddiben, ond mae yn y drafodaeth sawl rhan lle mae'r diben yn aneglur neu'n mynd yn ôl fformiwla.**
- Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi rhywfaint o eglurder a strwythur, ond heb gadw at y nod sydd wedi'i ddatgan, yn aml.
 - Diben eithaf amwys i'w weld yn y drafodaeth ar adegau.
 - Ymateb cyn lleied ag y bo modd i ymholiadau neu ddryswch rhieni/cynhalwyr am ddiben y drafodaeth.
 - Methu â chyflawni nod y gweithiwr cymdeithasol trwy'r drafodaeth.
- 3. Diben eglur i'w weld yn y drafodaeth. Wedi'i bennu heb lawer o negodi, fodd bynnag.**
- Pennu diben yn ôl agenda asiantaeth heb ddigon o ymdrechion i nodi agenda'r rhieni/cynhalwyr neu ymateb iddi.
 - Diben wedi'i bennu gan y gweithiwr, ond heb ei gyfleu i'r rhieni/cynhalwyr.
 - Cyflawni'r rhan fwyaf o'r nodau a ddatganodd y gweithiwr cymdeithasol.
- 4. Mae'n amlwg yn y cyfweiliad fod trafodaeth yn mynd rhagddi ac yn ymateb yn hyblyg i agenda'r rhieni/cynhalwyr.**
- Diben eglur a digon o ymgeisiau i ymateb i agenda'r rhieni/cynhalwyr.
 - Diben eglur i bawb sy'n cymryd rhan yn y drafodaeth er na fydd wedi'i ddatgan yn benodol, o reidrwydd.
 - Cyflawni nod y drafodaeth, ond nid ar draul agenda'r rhieni/cynhalwyr.
- 5. Bydd diben y drafodaeth yn eglur, ac mae pawb sy'n cymryd rhan ynddi wedi'i ddeall a chytuno arno. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn dangos ei fod wedi cynllunio, a bydd yn parhau'n hyblyg yn ymateb i agenda'r rhieni/cynhalwyr.**
- Diben eglur ac ymdrechion parhaus i nodi agenda'r rhieni/cynhalwyr ac ymateb iddi.
 - Diben y drafodaeth wedi'i ddeall gan bawb drwyddi draw.
 - Strwythuro'r drafodaeth yn ôl nod cynnwys gweithwyr cymdeithasol.
 - Cyflawni nod y drafodaeth ac ymgorffori agenda'r rhieni/cynhalwyr yn llawn.

Bod yn eglur ynghylch peryglon ac anghenion (awdurdod da)

Isel				Uchel
1	2	3	4	5
Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn methu â rhoi sylw i faterion neu bryderon pwysig nac ymateb i wybodaeth berthnasol mae'r rhieni / cynhalwyr wedi'i datgelu yn ystod y drafodaeth honno.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn methu â rhoi digon o sylw neu eglurder ynghylch materion neu bryderon. Gall gyfeirio atyn nhw yn anuniongyrcho l.	Codi materion neu bryderon fel y bo'n briodol heb roi cyfle i'w hystyried neu eu trafod yn drylwyr.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn codi materion a phryderon yn ystod y drafodaeth ac yn ceisio ystyried sefyllfa'r rhieni / cynhalwyr.	Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn gofalu bod materion a phryderon yn cael eu codi yn ystod y drafodaeth a'i fod yn ymgysylltu'n ystyrion â'r rhieni / cynhalwyr drwy gydol y

Diben y raddfa hon yw mesur pa mor eglur y bydd gweithiwr cymdeithasol yn deall rhesymau dros ei wahodd ac i ba raddau y bydd yn gallu trafod materion neu bryderon yn ystyrion gyda'r rhieni/cynhalwyr. Mae'r raddfa'n nodi gallu gweithiwr i godi materion o'r fath a'u cynnwys mewn trafodaethau defnyddiol. Byddai sgoriau isel yn dynodi trafodaethau lle roedd yn anodd neu'n amhosibl bod yn eglur pa bryderon neu broblemau a arweiniodd at alw gweithiwr cymdeithasol. Byddai sgorau uchel yn dangos bod pryderon wedi'u cynnwys mewn trafodaethau defnyddiol heb dreulio gormod o amser ar broblemau. Mae'n bosibl y bydd rhai trafodaethau lle nad oes modd codio'r eglurder ynghylch peryglon ac anghenion, yn ôl sefyllfa'r teulu a rôl y gweithiwr.

Pen is y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol isel eu sgôr o ran *egllurder ynghylch peryglon ac anghenion* yn methu ag esbonio pam mae angen gwaith cymdeithasol. Er enghraifft, trwy beidio â chodi materion neu bryderon neu fethu ag ymateb i wybodaeth sydd wedi'i datgelu yn ystod y trafodaethau. Gallai ymddangos nad yw gweithwyr isel eu sgôr o ran *egllurder ynghylch peryglon ac anghenion* yn ddigon hyderus i godi pynciau anodd.

Pen uwch y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol uchel eu sgôr o ran *egllurder ynghylch peryglon ac anghenion* yn gofalu bod materion neu bryderon yn eglur yn ystod y drafodaeth. Byddan nhw'n ddibryder yn eu rôl broffesiynol ac yn gallu codi materion yn hyderus neu ymateb yn briodol i'r hyn sydd wedi'i ddatgelu. Bydd gweithwyr uchel eu sgôr o ran *egllurder ynghylch peryglon ac anghenion* yn cydnabod bod angen ymgysylltu'n ystyrion â rhieni/cynhalwyr yn y drafodaeth ac yn croesawu eu barn am y materion neu'r pryderon. Gallan nhw godi cwestiynau yn briodol wrth gydnabod safbwynt amgen.

Angorau geiriol

- 1. Bydd y gweithiwr yn methu â rhoi sylw i faterion neu bryderon pwysig nac ymateb i wybodaeth berthnasol sydd wedi'i datgelu yn ystod y drafodaeth.**
 - Fydd y gweithiwr ddim yn codi unrhyw faterion neu bryderon o bwys yn ystod y drafodaeth.
 - Methu ag ymateb i'r hyn sydd wedi'i ddatgelu.

- Osgoi pynciau anodd drwy gydol y sesiwn.
 - Rheswm dros alw proffesiynolion yn aneglur.
- 2. Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn methu â rhoi digon o sylw neu eglurder ynghylch materion neu bryderon. Gall gyfeirio atyn nhw yn anuniongyrchol.**
- Dim ond ar ôl i'r rhieni/cynhalwyr eu codi y bydd yn trafod materion neu bryderon.
 - Crybwyll materion neu bryderon heb eu datgan yn eglur.
 - Trafodaeth amwys ac arwynebol am faterion a phryderon o bwys.
 - Methu ag ystyried safbwynt y rhieni/cynhalwyr.
 - Peth eglurder ynghylch pam mae proffesiynolion yno.
- 3. Codi materion neu bryderon fel y bo'n briodol heb roi cyfle i'w hystyried neu eu trafod yn drylwyr.**
- Codi materion a phryderon er mai safbwynt y gweithiwr neu'r asiantaeth fydd o dan sylw, yn bennaf.
 - Ymateb yn briodol i'r hyn sydd wedi'i ddatgelu yn ystod y drafodaeth.
 - Peidio â gwrandao ar hanes y rhieni/cynhalwyr neu ei dderbyn yn ddigwestiwn.
 - Colli sawl cyfle i drafod y materion neu'r pryderon yn fanylach.
 - Diystyru sylwadau neu ddominyddu'r sgwrs.
- 4. Bydd y gweithiwr yn codi materion a phryderon yn ystod y drafodaeth ac yn ceisio ystyried safbwynt y rhieni/cynhalwyr.**
- Datgelu materion a phryderon yn eglur ac ymateb yn gyson i'r hyn sydd wedi'i ddatgelu.
 - Rhai ymdrechion i edrych ar y materion o safbwynt y rhieni/cynhalwyr.
 - Colli rhai cyfleoedd i drafod y materion neu'r pryderon yn fanylach.
- 5. Bydd y gweithiwr yn codi materion a phryderon yn ystod y drafodaeth ac yn ymgysylltu â'r rhieni/cynhalwyr yn ystyrion drwyddi draw.**
- Strwythuro'r sesiwn ar gyfer trin a thrafod materion a phryderon.
 - Hel sylwadau'r rhieni/cynhalwyr am y pryderon.
 - Ystyried materion yn fanwl ac o sawl safbwynt.
 - Derbyn safbwyntiau amgen ond gallu codi cwestiynau yn briodol.
 - Rheswm eglur dros alw proffesiynolion drwyddi draw.

Cadw sylw ar y plentyn (*awdurdod da*)

Isel					Uchel
1	2	3	4	5	
<p>Methu ag ystyried y plentyn neu faterion sy'n berthnasol iddo. Canolbwyntio ar anghenion y rhieni / cynhalwyr <i>ar draul</i> rhai'r plentyn, o bosibl.</p>	<p>Trafod materion sy'n ymwneud â'r plentyn yn fras neu'n arwynebol.</p>	<p>Bydd y gweithiwr cymdeithasol yn cynnwys y plentyn yn y trafodaethau yn gyffredinol, gan gollu cyfleoedd i fanylu ar faterion gyda'r rhieni</p>	<p>Cymathu'r plentyn yn y drafodaeth mewn modd ystyrlon a rhoi peth sylw i safbwynt y rhieni / cynhalwyr.</p>	<p>Cymathu'r plentyn yn y drafodaeth yn gyson ac yn ystyrlon i helpu'r rhieni / cynhalwyr i ddeall ei anghenion yn well.</p>	
/cynhalwyr.					

Diben y raddfa hon yw mesur faint y bydd gweithiwr cymdeithasol yn gofalu bod y plentyn yn 'bresennol' yn y sgwrs.

Pen is y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol isel eu sgôr o ran *cadw sylw ar y plentyn* yn methu ag ystyried y plentyn neu faterion sy'n berthnasol iddo drwy gydol y sesiwn. Gallan nhw gael eu tynnu i drafod materion neu bryderon y rhieni heb gysylltu'r rheiny ag anghenion y plentyn. Bydd gweithwyr isel eu sgôr o ran *cadw sylw ar y plentyn* yn methu â nodi'r plentyn yn un rheswm y dylai'r rhieni newid, gan ganolbwyntio ar *yr hyn* ddylai newid yn hytrach na *pham*. Ar y llaw arall, gallai trafodaethau am y plentyn ganolbwyntio ar yr hyn fydd orau iddo yn ôl barn y gweithiwr. Gallai'r gweithiwr cymdeithasol ddod i gasgliad gor-syml o'r hyn sydd orau i'r plentyn heb ystyried cyfraniadau'r rhieni/cynhalwyr. Er enghraifft, trwy nodi materion y plentyn fesul adran neu yn ôl symboleiddiaeth.

Pen uwch y raddfa

Bydd gweithwyr cymdeithasol uchel eu sgôr o ran *cadw sylw ar y plentyn* yn cymathu'r plentyn yn y drafodaeth yn briodol. Byddan nhw'n cydnabod bod materion sy'n ymwneud â'r rhieni/cynhalwyr yn cael eu trafod er mwyn diwallu anghenion y plentyn. Byddan nhw'n chwilfrydig am sut mae'r rhieni/cynhalwyr yn gweld sefyllfa'r plentyn. Bydd gweithwyr uchel eu sgôr o ran *cadw sylw ar y plentyn* yn nodi'r plentyn yn ffynhonnell cymhelliant dros newid, heb gollu cyfleoedd i drafod hynny'n fanwl.

Angorau geiriol

1. **Methu ag ystyried y plentyn neu faterion sy'n berthnasol iddo. Gallai ganolbwyntio ar anghenion y rhieni/cynhalwyr ar draul rhai'r plentyn**
 - Absenoldeb y plentyn yn y sgwrs.
 - Canolbwyntio ar anghenion y rhieni/cynhalwyr yn y sgwrs heb grybwyll y plentyn.
 - Heb gynnwys y plentyn mewn trafodaethau am newid.

2. **Trafod materion sy'n ymwneud â'r plentyn yn fras neu'n arwynebol.**
 - Sôn am y plentyn ychydig, heb drafod ei anghenion yn fanwl.
 - Trafodaethau am y plentyn yn amherthnasol i rôl gwaith cymdeithasol.
 - Ystyried anghenion y rhieni/cynhalwyr *ar draul rhai'r* plentyn.

3. **Bydd y gweithiwr yn cynnwys y plentyn yn y trafodaethau yn gyffredinol, gan gollu cyfleoedd i fanylu ar faterion gyda'r rhieni/cynhalwyr.**
 - Trafodaethau cyffredinol am y plentyn.
 - Gallai ymddangos eu bod yn trafod anghenion y plentyn yn ôl dull 'ticio blychau' (e.e. sut mae'i waith yn yr ysgol, sut mae'i iechyd) heb ofyn cwestiynau sy'n berthnasol i'w sefyllfa unigryw.
 - Codi anghenion y plentyn, ond canolbwyntio ar safbwynt yr asiantaeth, yn bennaf.
 - Colli'r rhan fwyaf o gyfleoedd i ystyried y plentyn o safbwynt y rhieni/cynhalwyr.

4. **Cymathu'r plentyn yn y drafodaeth mewn modd ystyrlon a rhoi peth sylw i safbwynt y rhieni/cynhalwyr.**
 - Rhai ymdrechion i edrych ar anghenion y plentyn o safbwynt y rhieni/cynhalwyr.
 - Gallu dysgu ychydig am safbwynt y plentyn *unigol* neu ei ffordd o weld y byd.
 - Manteisio ar rai cyfleoedd i gynnwys y plentyn yn y trafodaethau a deall ei anghenion yn well.
 - Ystyried anghenion y plentyn yng nghyd-destun y rhesymau dros alw gweithiwr cymdeithasol.

5. **Cymathu'r plentyn yn y drafodaeth yn gyson ac yn ystyrlon i helpu'r rhieni/cynhalwyr i ddeall ei anghenion yn well.**
 - Codi a chreu cyfleoedd i drafod y plentyn.
 - Gallu gweld darlun manwl o anghenion y plentyn *unigol* a'r modd mae'n gweld y byd o sawl safbwynt.
 - Ystyried y plentyn yn fanwl o safbwynt y rhieni/cynhalwyr.
 - Heb gollu cyfleoedd i drafod anghenion y plentyn, e.e. trwy ymateb i bryderon y rhieni/cynhalwyr amdano.